DATGANIAD I'R WASG I'W DDEFNYDDIO AR UNWAITH **9 Mehefin 2020**

ARTISTIAID AC ARWEINWYR DIWYLLIANNOL ANABL BLAENLLAW YN ANFON LLYTHYR AGORED AT WEINIDOGION DIWYLLIANT Y DU YN MYNNU CYMORTH I BOBL ANABL YN Y DIWYDIANNAU CREADIGOL

#WeShallNotBeRemoved

Mae dros 100 o artistiaid ac arweinwyr diwylliannol anabl blaenllaw wedi anfon llythyr agored heddiw at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Oliver Dowden AS a Gweinidogion Diwylliant datganoledig y DU, yn mynnu mesurau diogelu i amddiffyn dyfodol celfyddydau anabledd yn y DU o ganlyniad i Covid 19.

Mae'r rhai sydd wedi llofnodi yn cynnwys artistiaid anabl proffil uchel yn cynnwys y cerddorion y Fonesig Evelyn Glennie a James Rose, yr actorion Mat Fraser a Nabil Shaban, y cerflunydd Tony Heaton, y darlledwr Mik Scarlet, yr awdur Jamie Hale, y perfformiwr Jess Thom, y cyfarwyddwr ffilm Justin Edgar, ynghyd ag arweinwyr diwylliannol yn cynnwys cyfarwyddwr artistig Theatr Graeae, Jenny Sealey a Hyrwyddwr Anabledd y Llywodraeth ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant, Andrew Miller.

Mae'r llythyr yn rhybuddio fod y pandemig wedi **chwyddo anghydraddoldebau** i bobl anabl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a bod llawer yn wynebu cyfnod hirdymor o warchod, colli incwm ac anweledigrwydd yn y gymdeithas ehangach.

Mae arweinwyr diwylliannol anabl yn galw ar y llywodraeth i ehangu'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) y tu hwnt i fis Awst, i roi blaenoriaeth i gynnwys pobl anabl mewn polisi diwylliannol ac i sicrhau bod y gwaith o adnewyddu ac adfer y sector diwylliannol yn fwy cynhwysol.

Trefnwyd y llythyr agored gan y sefydliad newydd UK Disability Arts Alliance / Cynghrair Celfyddydau Anabledd y DU **#WeShallNotBeRemoved**. Mae'r gynghrair yn ymateb brys sy'n cael ei arwain gan bobl anabl ar gyfer pobl anabl sy'n gweithio ar draws diwydiannau creadigol y DU ym mhob capasiti ac ar draws amryw o ffurfiau celf.

Dywedodd **Andrew Miller, Hyrwyddwr Anabledd Llywodraeth y DU ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant**: *"Mae Covid19 yn fygythiad uniongyrchol iawn i iechyd, creadigrwydd a hawliau sifil pobl anabl. Felly mae'n hanfodol fod Llywodraeth y DU yn sicrhau bod yr adferiad diwylliannol arfaethedig yn cael ei gynllunio'n gynhwysol gyda phobl anabl greadigol yn ganolog iddo".*

Dywedodd **Jenny Sealey MBE, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig Theatr Graeae**: *"Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar y cyd i gefnogi ein gilydd drwy storm Covid19 ac ar ôl hynny, a sicrhau bod ein cymuned anabl yn ganolog i bolisi ac arfer celfyddydau datblygol".*

Dywedodd **Jo Verrent, Uwch Gynhyrchydd rhaglen comisiynau'r DU Unlimited**: *"Yn ynysig ac yn cael eu hanwybyddu mwy a mwy gan lawer, mae'n RHAID i bobl anabl fod yn ganolog i'r sector diwylliannol sydd i ddod, yn un ffisegol a rhithwir, sy'n cynnwys pawb ac yn hepgor neb."*

Dywedodd **Robert Gale, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Birds of Paradise yn yr Alban**: *"Mae Covid19 yn bygwth popeth ry'n ni wedi gweithio tuag ato oni bai ein bod yn sicrhau bod ein hymateb yn gadarn ac yn rhoi pobl anabl wrth galon yr holl drafodaethau ynglŷn â'n dyfodol."*

Dywedodd **Ruth Fabby MBE, Cyfarwyddwr asiantaeth genedlaethol Disability Arts Cymru**: *"Mae #WeShallNotBeRemoved yn rhwydwaith hanfodol sy'n sicrhau fod ein lleisiau cyfunol am yr hyn yr ydyn yn poeni amdano yn sgil Covid-19 yn cael ei chydnabod a'i ymateb iddynt. Rwy'n falch bod Cymru yn cael ei gynrychioli gan fod gennym broblemau unigryw sy'n cynnwys ein daearyddiaeth, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus wael ac ardaloedd gyda chysylltedd gwael – problemau yn cael effaith dramatig ar allu pobl B/byddar ac anabl i gael ei gynnwys."*

Fforwm i eiriol, ymgyrchu dros a chefnogi ymarferwyr creadigol B/byddar, niwro-amrywiol ac anabl, a sefydliadau celfyddydau anabledd drwy Covid19 ac ar ôl hynny yw **#WeShallNotBeRemoved.** Nodau'r gynghrair yw:

- sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer anabledd a'r celfyddydau cynhwysol yn y DU drwy'r pandemig ac ar ôl hynny
- chwyddo lleisiau ymarferwyr creadigol B/byddar, niwro-amrywiol ac anabl, a sefydliadau celfyddydau anabledd, ar adeg o argyfwng i'r celfyddydau ac i bobl anabl

Mae aelodaeth yn **#WeShallNotBeRemoved** yn rhad ac am ddim, yn agored i bob ymarferydd creadigol B/byddar, niwro-amrywiol ac anabl unigol, a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anabledd sy'n gweithredu yn niwydiannau creadigol y DU. Cyn pen mis o'i ffurfio, mae'r gynghrair wedi denu dros 350 o aelodau.

Hefyd, anfonwyd y llythyr agored at Fiona Hyslop ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Materion Allanol yn Llywodraeth yr Alban, yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn Llywodraeth Cymru, a Deirdre Hargey, Gweinidog Gogledd Iwerddon dros Gymunedau.

Cedwir y llythyr agored ar wefan Theatr Graeae. Cynhwysir testun y llythyr a'r rhestr lawn o **136 o lofnodwyr** isod:

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Mae sector celfyddydau anabledd a chynhwysol ffyniannus y DU yn cael ei gydnabod yn fyd-eang fel sector sy'n arwain y byd. Ar draws y pedwar degawd diwethaf, mae cyfuniad o ddychymyg di-ben-draw artistiaid anabl a chyllid cyhoeddus hanfodol wedi arwain at ffyniant talent pobl F/fyddar, niwro-amrywiol ac anabledd nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, ar ein llwyfannau a'n sgriniau cenedlaethol, yn ein llenyddiaeth ac yn ein horielau.

Mae pobl anabl yn rhan gynyddol o'r seilwaith creadigol cenedlaethol fel artistiaid, ond hefyd fel cyflogeion, gweinyddwyr ac ymddiriedolwyr, ym mhob ffurf ar y celfyddydau ac ym mhob capasiti. Yn ddiweddar, pennwyd bod pob anabl yn ffurfio 12% o gynulleidfaoedd celfyddydau cenedlaethol yn Lloegr hefyd.

Mae'r holl gynnydd cynhwysol hwn yn cael ei fygwth gan Covid-19.

Mae'r pandemig yn effeithio ar fywoliaethau, iechyd, gofal cymdeithasol a chreadigrwydd, ac yn frawychus, mae'n effeithio gymaint yn fwy ar bobl anabl. Yn waeth, mae'r rhan fwyaf o bobl anabl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol yn hunangyflogedig, ac maent yn pryderu'n fawr iawn ynglŷn â'u dyfodol yn sgil y ffaith fod y cynllun SEISS yn dod i ben ym mis Awst. Mae llawer o artistiaid anabl yn wynebu cyfnod hirdymor o warchod, colli incwm yn llwyr, amharu ar fyw'n annibynnol a'r risg o fod yn anweledig yn y gymdeithas ehangach.

Mae arweinwyr diwylliannol anabl yn galw ar y llywodraeth a'r sector i sicrhau nad yw'r cynnydd rydym wedi'i wneud gyda'n gilydd yn diffygio yn y cyfnod hwn o argyfwng. Mae'n rhaid i artistiaid, cyflogeion a chynulleidfaoedd anabl gael eu blaenoriaethu a'u dathlu mewn polisi a chyflawniad diwylliannol.

Yn ogystal, o ran y diwydiant a gaeodd ym mis Mawrth, nid oedd y diwydiant hwnnw'n gweithio i lawer ohonom. Mae'n rhaid i waith adnewyddu ac adfer y diwydiannau diwylliannol ehangach gael ei arwain gan ymagwedd gwbl gynhwysol yn cael ei llywio gan weithwyr proffesiynol creadigol anabl er mwyn cryfhau hygyrchedd y sector a gweithredu'r dysgu o'r argyfwng hwn ynglŷn â gweithio gartref a mynediad ar-lein.

Fe wnaeth ein Mudiad Celfyddydau Anabledd llawn gweledigaeth ddefnyddio ymadrodd yn y 1980au a hyrwyddodd yn fawr achos y Model Anabledd Cymdeithasol a oedd yn cael ei fabwysiadu ledled y byd. Mae'r ymadrodd hwnnw yr un mor berthnasol nawr ymysg y pandemig hwn ag ydoedd bryd hynny: ***nothing about us without us / [dim amdanom hebddom ni]****. Yn y sylw teimladwy hwn, rydym yn sefyll yn gwbl gadarn â'n cydweithwyr yn y theatr Pobl Dduon ac Asiaidd a ysgrifennodd atoch ar 28 Mai, a gyda'r gweithredoedd seismig sy'n cael eu cyflawni ledled y byd drwy'r mudiad Black Lives Matter.*

Mae celfyddydau anabledd yn stori o lwyddo sy'n unigryw i Brydain ac fel pobl anabl, dymunwn chwarae ein rhan yn yr adferiad cenedlaethol. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod ein pryderon gyda chi yn uniongyrchol, oherwydd gyda'ch cefnogaeth chi Ysgrifennydd Gwladol, ni chawn ein dileu [#we shall not be removed]

Llofnodwyd,

Jenny Sealey, MBE, Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Graeae
Andrew Miller, Hyrwyddwr Anabledd ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant
Tony Heaton OBE, Cadeirydd, Shape Arts
David Hevey, Prif Swyddog Gweithredol, Shape Arts
Ruth Fabby MBE, DL, Cyfarwyddwr Celfyddydau Anabledd Cymru
Robert Softley Gale, Cyfarwyddwr Artistig, Cwmni Theatr Birds of Paradise
Jodi-Alissa Bickerton, Cyfaryddwr Dysgu Creadigol, Theatr Graeae
Jo Verrent, Uwch Gynhyrchydd, Unlimited
Vici Wreford-Sinnott, Cyfarwyddwr Artistig, Little Cog / Disconsortia
Barry Farrimond MBE, Prif Swyddog Gweithredol, Open Up Music a'r National Open Youth Orchestra
Carien Meijer, Prif Weithredwr, Drake Musid
Gareth Cutter, Artist annibynnol ac Artist Preswyl (Drake Music)
Melanie Sharpe, Prif Swyddog Gweithredol, Stagetext
Julie McGowan, Ymddiriedolwr yn The University of the Atypical, independent artist.
Stephen Bailey, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Preswyl, Theatr Gŵyl Chichester
Toki Allison, Swyddog Mynediad BFI FAN, Inclusive Cinema - Canolfan Ffilm Cymru
Aisling Gallagher, cyfarwyddwr llawrydd, ymarferydd theatr, Cynghorydd Bwrdeistref Lewisham yn Llundain
Kelsie Acton, dawnsiwr/coreograffydd, Rheolwr Ymarfer Cynhwysol, Canolfan Celfyddydau Battersea
Becki Morris, Cyfarwyddw Disability Collaborative Network C.I.C.
Robert` Sanderson, rheolwr lleoliad wedi ymddeoli, gwaith achlysurol fel ymgynghorydd rheoli'r celfyddydau
Jonny Cotsen, Gwneuthurwr Theatr Llawrydd / Ymgynghorydd a Hwylusydd Mynediad
Chris Tally Evans, artist llawrydd
Trish Wheatley, Prif Swyddog Gweithredol, Disability Arts Online
Stephanie Fuller, Cyfarwyddwr/Prif Swyddog Gweithredol, Amgueddfa Celfyddydau a Chrefftau Ditchling
Linda Rocco, Curadur Llawrydd, Cynhyrchydd ac Ymgynghorydd
Andrew Roach, Asiant/Rheolwr Gyfarwyddwr Talent, Andrew Roach Talent Ltd
Daryl Beeton, Daryl Beeton Productions
Jonathan Harper, Prif Weithredwr, Paraorchestra
Michèle Taylor, Cyfarwyddwr ar gyfer Newid, Ramps on the Moon
Lloyd Coleman, Cyfarwyddwr Cerdd Cyswllt, Paraorchestra
Sophie Woolley, Awdur a Pherfformiwr Llawrydd
Simon Morris, Rheolwr Cyffredino, Theatr Blue Apple
Ellie Page, Awdur, Dylunydd ac Ymgynghorydd, Partner Rheoli Still III OK + Nice Time Arts
John R. Wilkinson, Cyfarwyddwr Theatr Llawrydd, Cydymaith Artistig, York Theatre Royal Caglar Kimyoncu, Cyfarwyddwr Artistig, filmpro
Dr Jessi Parrott, Perfformiwr, Bardd ac Academydd

Steve Moffitt, Prif Swyddog Gweithredol, A New Direction
Joanne Roughton-Arnold, Canwr Opera a Chyfarwyddwr Cwmni, formidAbility
Julian Gray, Darlunydd Llawrydd
Mik Scarlet, Darlledwr, Cerddor, Actor ac Ymgynghorydd Ymarfer Cynhwysol
Mat Fraser, actor ac awdur, cyd-gyfarwyddwr ONEOFUS
Paul Wilshaw, actor a chynhyrchydd, Cynhyrchydd cynorthwyol yn Mind the Gap
Tim Wheeler, gwneuthurwr theatr llawrydd, ymgynghorydd a darlithydd y celfyddydau
Kyle McCall Wilson, Swyddog Marchnata Cyfryngau Cymdeithasol yng Nghwmni Perfformio EGO
Charlotte Darbyshire, Cyfarwyddwr Artistig, Cwmni Dawns Candoco
Jo Royce, Cyfarwyddwr Gweithredol, Cwmni Dawns Candoco
Becky Morris Knight, Cyfathrebu Llawrydd a gweithio gyda Drake Music
Donna Holford-Lovell, Cyfarwyddwr, Celfyddydau Digidol NEoN (NEoN)
David Proud, Actor Llawrydd, Awdur, Cyfarwyddwr
Samantha Tatlow, Cydlynydd Talent, thinkBIGGER! Ltd
Justin Edgar, Cyfarwyddwr Ffilm, Awdur a Chynhyrchydd, 104 Films
Sam Oldknow, Myfyriwr Gradd Meistr Astudiaethau Ffilm
Kim Tserkezie, Actor, Cyflwynydd, Cynhyrchydd, Rheolwr Gyfarwyddwr Scattered Pictures
Jamie Beddard, Cyd-Gynhyrchydd Diverse City ac Agent for Change New Wolsey
Philippa Cole, Actor
Kyla Harris, Actor, Awdur a sylfaenydd The Other Screen
Ella Glendining, Gwneuthurwr ffilm ac Awdur
Sho Shibata, Cynhyrchydd Gweithredol, Cwmni Dawns Stopgap
Lucy Bennett, Cyfarwyddwr Artistig, Cwmni Dawns Stopgap
Jennifer Gilbert, Cyfarwyddwr Oriel Jennifer Lauren a chynhyrchydd/curadur llawrydd
Amy Cunningham, Cyfarwyddwr Creadigol, Theatr Dark Horse
Jess Thom, Cyfarwyddwr Cyd-artistig, Touretteshero
Matthew Pountney, Cyfarwyddwr Cyd-artistig, Touretteshero
Bobby Baker, artist, Cyfarwyddwr Artistig, Daily Life Ltd.
Joe Stevenson, Awdur a Cherddor Llawrydd
Hannah Quigley, cyfarwyddwr/ymarferydd/rheolwr celfyddydau llawrydd
Eleanore Hall, artist, Rheolwr Prosiectau, Club Soda Croydon
Flossie Waite, Cynhyrchydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cwmni Theatr Oily Cart
Alison Garratt, Cynhyrchydd Teithiol, Cwmni Theatr Oily Cart
Martin Wilson, Cyfarwyddwr, TIN Arts
Georgie Morrell, Comedïwr , Actor ac Awdur
Tom Wentworth, Dramodydd, sgriptiwr ffilmiau
Midnight Memphis, Cydlynydd Mynediad BFI FAN, Swyddog Arddangosfeydd Beacon Films
Nick Llewellyn, Cyfarwyddwr Artistig, Access All Areas
Rachel Rogers, Cynhyrchydd, DaDaFest, Lerpwl
Hana Pascal Keegan, Cyfarwyddwr / Awdur / Dramäydd Llawrydd
Nabil Shaban, sylfaenydd Theatr Graeae, actor, awdur, paentiwr, nofelydd, bardd, gwneuthurwr ffilm (Sirius Pictures), gweithredydd hawliau anabledd
Lorna O'Brien, Rheolwr Creadigol, MarketPlace, Creative People And Places
Sarah Horner, Prif Weithredwr, Theatr Hijinx
Laura Jones, Pennaeth Datblygu Talent, Cwmni Dawns Stopgap
Ellie Griffiths, Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Oily Card
Elise Davison, Cyfarwyddwr Artistig. Cwmni Theatr Taking Flight
Stephanie Back, Actores, hwylusydd gweithdai ac artist arweiniol Deaf & Fabulous Productions

Laura Rees, Actor a myfyriwr MA presennol mewn Theatr Gymhwysol ym Mhrifysgol Goldsmiths
Ashokkumar Mistry, Artist, Curadur, Awdur
Deborah Dickinson, Uwch Gynhyrchydd, Mind the Gap
Heather Andrews, Artist Sain, Dylunydd Sain a Recordydd
Casey Bottono, BA (Anrh.), Awdur MA ac Arweinydd Gweithdai, The Writers' Block
James Rose, Arweinydd (Cerdd)
Rona Topaz, Canwr/Actores/Arweinydd Côr
Phoebe Kemp, Gwneuthurwr Theatr Llawrydd, Cadeirydd, Pwyllgor Aelodau B/byddar ac Anabl Equity
Liz Porter, Ymgynghorydd Llawrydd Mynediad i'r Celfyddydau a Threftadaeth/storïwr perfformio
Br. Andy TSSF – Canwr/ Artist / Cynhyrchydd Anabl, Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Anabledd, GIG
Beth Hinton-Lever, Actor
Lady Kitt, Artist a Brenin Drag, cyd-sylfaenydd Nasty Women North East
Nicola Cashin, Rheolwr cyffredinol, Cwmni Perfformio EGO
Tim Nunn, Artist, Curadur a Chynhyrchydd
Simon Yuill, Artist
Amy Trigg, Actor ac Awdur
Jude Škulec, Technegydd Llwyfan a Gwisgwr
Charlie Fitz, artist ac awdur
Will Sadler, Cyfarwyddwr Datblygu, Beacon Films
Mike Layward, Cyfarwyddwr Artistig DASH
Katie J Redstar, actor, awdur, cyfarwyddwr
Pauline Heath, Actor ac awdur
Kathryn Barnett, cyfarwyddwr y sefydliad celfyddydau a arweinir gan anabledd Regeneration NE CIC
Elaine Collins, Artist, Actor, Perfformiwr, Gwneuthurwr Theatr, Myfyriwr MA LIPA, gwneuthurwyr theatr Dadafest
Dan Edge, Actor, Model, Reslwr Proffesiynol, Is-gadeirydd Pwyllgor Aelodau B/byddar ac Anabl Equity

Tanya Raabe-Webber, Artist Anabl, Painter of People, Cyfarwyddwr PortraitsUntold a ArtStudio01-Artists Collective
Michelle Rolfe, Cynhyrchydd, BOP TheatreMorna McGeoch, Swyddog Datblygu, Theatr BOP
Caroline Cardus, Artist Gweledol, Cynhyrchydd Creadigol
Samuel Brewer, Actor/Gwneuthurwr Theatr BA(Anrh) Myfyriwr Actio, Central School of Speech and Drama
Sarah Archdeacon – Cyfarwyddwr Artistig, Corali
Georgina Egan, Cyfarwyddwr Artistig, Cwmni Perfformio EGO
Corinne Robinson, Cyfarwyddwr Artistig, Cwmni Perfformio EGO
Kacey De Groot, Rheolwr Datblygu, Cwmni Perfformio EGO
Richard Nutter, Cyfarwyddwr Gweithredol, DaDaFest
Aidan Moesby. Artist/Curadur
Dr Vole, canwr/cyfansoddwr caneuon/bardd llawrydd
Ben Pettitt-Wade, Cyfarwyddwr Artistig, Hijinx
Alan Whitfield, Swyddog Celfyddydau Gweledol Cenedlaethol, Celfyddydau Anabledd Cymru
Sydney Thornbury, Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig, The Art House, Wakefield
Jen Garrick, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu, The Art House, Wakefield
Ellie Tait, Ffrind Beirniadol a Churadur
Samantha Renke, darlledwr ac ymgyrchydd dros hawliau anabledd
Y Fonesig Evelyn Glennie – Cerddor, Llywydd Help Musicians
Beth House, Cyfarwyddwr Datblygu/Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd, Cwmni Theatr Taking Flight
Charles Hazlewood, Arweinydd (Cerdd), Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig Paraorchestra
Stella Patrick, Ymgynghorydd Marchnata, Cwmni Theatr Taking Flight a Llawrydd
Louise Ralph, Rheolwr Cyffredinol, Cwmni Theatr Taking Flight

Olga Macrinici, gwneuthurwr theatr
Emily Garside, Cadeirydd Theatr Taking Flight
Garrin Clarke, Rheolwr Llwyfan, Llawrydd
Katy Stephens, Actor/Rheolwr, Cwmni Perfformio EGO
Clare-Louise English, Cyfarwyddwr Cyd-Artistig, Theatr Hot Coals
Jo Sargeant, Cyfarwyddwr Cyd-Artistig, Theatr Hot Coals
Jamie Hale, awdur ac ymarferydd theatr llawrydd, artist ensemble, Cwmni Theatr Graeae

DIWEDD

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andrew Miller

andrew.millerACSC@gmail.com

@AndrewM_Arts

#WeShallNotBeRemoved